Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Swydd Ddisgrifiad

I wneud cais, anfonwch ddatganiad personol (dim mwy na 1200 o eiriau) a CV yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf isod i hr@wra.gov.wales.

Teitl y Swydd	Lleoliad Haf Cyfathrebu
Cyflog Cychwynnol Gwirioneddol (gan gynnwys unrhyw lwfansau)	£23,625
Ystod Cyflog	£23,625 – £27,400
Patrwm gwaith	Llawn amser, ond yn agored i ymgeiswyr sy'n dymuno gweithio'n rhan amser ar sail rhannu swydd
Math o gyfle (a hyd y cyfnod os yw'n berthnasol)	Lleoliad gwaith (3 mis cyfnod penodol)
Lleoliad y Swydd	Canolfan QED, Ystâd Trefforest, Pontypridd
Yn atebol i	Uwch Reolwr Cyfathrebu
Amser a Dyddiad Cau ar gyfer gwneud Cais	Hanner nos ar 28 Mai 2019
Dyddiad dechrau dangosol	1 Gorffennaf 2019
Rheolau cenedligrwydd	Rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr sydd â'r hawl i weithio'n llawn amser yn y DU.
Dyddiad Dechrau	Dechrau Gorffennaf – hyblyg.
Pwynt cyswllt er mwyn cael rhagor o wybodaeth	E-bostiwch wracommunications@wra.gov.wales

Cefndir Awdurdod Cyllid Cymru:
ACC yw'r awdurdod trethi newydd Cymru, sy'n casglu a rheoli'r trethi Cymreig dat-ganoledig cyntaf ers 800 mlynedd: Treth Trafodiadau Tir (LTT) a Threth Gwared-iadau Tirlenwi (LDT). Mae'r trethi Cymreig hyn wedi eu llunio yng Nghymru, ar gyfer Cymru. Rydym yn disgwyl codi £1bn dros ein pedair blynedd gyntaf, cyllid a fydd yn

ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG ac ysgolion, ledled Cymru.

Byddwch yn ymuno â sefydliad bach, arbenigol o tua 80 o bobl ar draws 16 o wahanol broffesiynau, ac yn ystod diwrnod arferol byddwch yn gweithio mewn nifer o feysydd a gyda nifer o dimau ar draws ein sefydliad. Rydym yn sefydliad sy'n perfformio'n dda ac mae gennym lefel uchel o ymgysylltiad – gweler ganlyniadau ein Harolwg Pobl diweddaraf yma.

Diben y swydd:

Gan weithio'n uniongyrchol i'r Uwch Reolwr Cyfathrebu mewn tîm Cyfathrebu o dri, byddwch yn helpu ein tîm i ddarparu gweithgareddau cyfathrebu allanol a mewnol.

Tîm cymharol fach a newydd yw'r tîm Cyfathrebu, sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cysylltiadau â'r cyfryngau, y cyfryngau digidol/cymdeithasol a dylunio.

Byddwch yn weithiwr annibynnol a brwdfrydig, yn greadigol ac yn credu'n angerddol mewn cyfathrebu sy'n cyflawni canlyniadau. Gyda sgiliau trefnu rhagorol a dull hyblyg o weithio, byddwch yn cael profiad o amrywiaeth eang o waith.

Mae'r tîm Cyfathrebu yn dal i dyfu ac mae'n chwarae rhan allweddol o ran cefnogi blaenoriaethau strategol ACC. Ar hyn o bryd, mae prosiectau mawr yn cynnwys adolygiad o'n gwefan.

Byddwch yn cael y cyfle i ddefnyddio'r sgiliau a gawsoch wrth astudio am eich gradd cyfathrebu/cyfryngau (neu gyfwerth) mewn gweithle modern diddorol.

"Bydd bod yn rhan o'r Tîm Cyfathrebu yn rhoi cyfle i chi weithio ar ystod eang o weithgareddau cyfathrebu allanol a mewnol. Byddwch yn dysgu sgiliau ymarferol tra'n ennill cyflog. Os ydych yn greadigol, yn ymroddgar ac yn angerddol, hoffem glywed gennych chi!"

Sian Johnson,
Uwch Reolwr Cyfathrebu

Tasgau allweddol:

- Drafftio cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ACC e.e. Twitter; LinkedIn; sgriptio ar gyfer fideos; erthyglau ar gyfer y fewnrwyd; cyhoeddiadau i'r wasg
- Helpu i weithredu fel llygaid a chlustiau ACC drwy ganfod cyfleoedd a chyfrannu syniadau creadigol sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyfathrebu
- Helpu i gefnogi prosiectau allweddol sy'n cael eu harwain gan y Tîm Cyfathrebu, er enghraifft ein gwaith o adolygu'n gwefan a'n mewnrwyd
- Helpu i gefnogi datblygiad calendrau golygyddol, dros amrywiaeth o sianeli, er mwyn helpu i gefnogi blaengynllunio'r tîm
- Helpu i gefnogi aelodau'r Tîm Cyfathrebu mewn digwyddiadau neu weithgareddau ymgysylltu ehangach e.e. tynnu lluniau/fideos i'w rhannu'n ehangach
- Helpu i adolygu dogfennau cyfredol, wedi'u brandio, ar gyfer ACC a

pholisïau cyfathrebu ehangach • Helpu i brawfddarllen unrhyw weithgarwch cyfathrebu er mwyn sicrhau bod cynnwys o ansawdd yn cael ei rannu'n allanol ac yn fewnol e.e. cyhoeddiadau corfforaethol • Defnyddio unrhyw sgiliau sy'n ymwneud â datblygu fideos neu ddylunio i gefnogi'r Uwch Reolwr Cyfathrebu gyda phrosiectau • Cefnogi'r Tîm Cyfathrebu gyda gweithgareddau gweinyddu o ddydd i ddydd gan gynnwys gweithgareddau tracio; mesur a gwerthuso

Rydym yn recriwtio gan ddefnyddio Proffiliau Llwyddiant. Cliciwch y ddolen am ganllawiau a fydd yn eich helpu i gwblhau eich cais.

Rydym yn chwilio am ymddygiadau, sgiliau, cryfderau, a phrofiad pan fyddwn yn recriwtio. Rydym yn chwilio am rai o'r rhain drwy gydol y broses recriwtio, ond efallai mai dim ond ar rai adegau y byddwn yn chwilio am eraill.

Gweler isod y dystiolaeth y dylech ystyried ei harddangos yn ystod y broses recriwtio (efallai y byddwch hefyd am gyfeirio at y tasgau allweddol a nodir uchod):

	Yn cael ei asesu yn y Datganiad Personol a'r CV:	Yn cael ei asesu yn ystod cyfweliad/asesiad:
Ymddygiadau: Dealltwriaeth: Y Cyfryngau a'r Wasg - Bod yn ymwybodol o'r agenda newyddion ac o ddigwyddiadau newydd sydd yn y newyddion Syniadau: Craidd - Dangos ymwybyddiaeth o sut mae sianeli cyfathrebu'n cydweithio ac yn ategu ei gilydd	✓ ✓	✓ ✓
Sgiliau: • Cyfathrebu'n glir ac yn gryno, ar lafar ac mewn gwaith ysgrifenedig • Chwaraewr tîm, yn gweithio'n dda gydag eraill, ar draws timau, ar fathau amrywiol o waith	✓ ✓	✓ ✓
Cymwysterau: • Yn astudio neu wedi cwblhau cymhwyster cyfathrebu neu'r cyfryngau ar lefel Prifysgol yn ddiweddar	✓	

Mae'r rôl hon yn defnyddio cymwyseddau Gwasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cymwyseddau uchod, yma.

Gofynion o ran y Gymraeg

Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn asesiad gwrthrychol o'r sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swydd hon:

Sgiliau Cymraeg	**Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol**
Darllen	0 = Dim sgiliau
Siarad	0 = Dim sgiliau
Dealltwriaeth	0 = Dim sgiliau
Ysgrifenedig	0 = Dim sgiliau

Lefel o fetio at Ddibenion Diogelwch

Gwiriad Sylfaenol / Gwiriad Gwrthderfysgaeth / Gwiriad Diogelwch / DV

Asesu

Mae asesu’n cynnwys cyfweliad cyfunol, lle’r ydym yn profi am y meini prawf a gyhoeddir uchod. Yn dibynnu ar y rôl, mae'n bosibl y byddwn yn:

- profi am gryfderau sy'n berthnasol i'r ymddygiadau. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr hyn a olygwn wrth gryfderau yma.
- gofyn i chi wneud ymarfer, prawf neu gyflwyniad. Os felly, byddwn yn dweud wrthych cyn eich cyfweliad, ac yn gofyn a oes gennych unrhyw ofynion penodol yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonynt.

Sut i wneud cais

I wneud cais, cwblhewch ddatganiad personol (dim mwy na 1200 o eiriau) a CV (dim mwy na dwy ochr o A4) yn rhoi tystiolaeth o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf uchod. Bydd angen i chi hefyd gwblhau ein ffurflen ‘Eich manylion’, er mwyn ein galluogi i sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn deg, ond ni fydd hon yn cael ei rhannu ymhellach na'n tîm Adnoddau Dynol. Gallwch lenwi Eich Manylion yma.

Dylid anfon y ffurflen 'Eich Manylion', eich datganiad personol a’ch CV gyda’i gilydd i hr@wra.gov.wales. Er mwyn sicrhau tegwch, ni allwn dderbyn ceisiadau hwyr, felly gofalwch eich bod wedi cwblhau'r tair dogfen.

Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Gweler y dudalen hon am fanylion buddion gweithio i ACC.

Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan weision sifil.

Rydym yn recriwtio yn ôl teilyngdod, ar sail cystadleuaeth deg ac agored, fel yr amlinellir yn Egwyddorion recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r egwyddorion recriwtio, a'ch bod am wneud cwyn, dylech gysylltu â phennaeth yr adran Adnoddau Dynol yn hr@wra.gov.wales.

Os nad fyddwch yn fodlon â'r ymateb y byddwch yn ei dderbyn gennym, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil.